EISTEDDFOD GADEIRIOL TREGARON

NEUADD GOFFA, TREGARON

Nos Wener 8fed a Dydd Sadwrn 9fed Medi 2023

I DDECHRAU

Nos Wener 6:30pm, Dydd Sadwrn 12:00pm

BEIRNIAID

NOS WENER

CERDD: Dafydd Jones, Ciliau Aeron
ADRODD: Sara Down-Roberts, Aberystwyth
CELF: Huw Williams, Ysgol Henry Richard

DYDD SADWRN

CERDD: Iwan Teifion Davies, Caerfyrddin
ADRODD: Daf Wyn Rees, Caerdydd (S4C)
LLÊN: Rocet Arwel Jones, Aberystwyth

CYFEILYDDION

Lona Phillips, Abermagwr, Aberystwyth (p'nawn Sadwrn)
Sian Davies, Penybont-ar-Ogwr (nos Sadwrn)

LLYWYDD

Mr Irfon Bennett, Treganna, Caerdydd

MYNEDIAD

Nos Wener: Oedolion £3, Plant am ddim
Dydd Sadwrn: Oedolion £5, Plant dan 18 £1

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

COFIA'N GWLAD

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym:
Cadw hi rhag llid gelynion,
Rhag ei beiau'n fwy na dim:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.

Elfed

YR ADRAN GYFYNGEDIG: Nos Wener, 8fed o Fedi

Yn gyfyngedig i blant cynradd Ysgol Henry Richard, Tregaron. Yr ysgol i osod darnau penodol ar gyfer y cystadlaethau

1. **UNAWD DERBYN A MEITHRIN**
   Troi ein Dwylo
   1. £5 2. £3 3. £2

2. **ADRODD DERBYN A MEITHRIN**
   Mali Malwoden
   1. £5 2. £3 3. £2

3. **UNAWD Bl.1 a 2**
   Ceir (gan Leah Owen)
   1. £5 2. £3 3. £2

4. **ADRODD Bl.1 a 2**
   Sws
   1. £5 2. £3 3. £2

5. **UNAWD Bl.3 a 4**
   Yr Eliffant (gan J. Eirian Jones)
   1. £5 2. £3 3. £2

6. **ADRODD Bl.3 a 4**
   Dost Ofnadwy
   1. £5 2. £3 3. £2

7. **UNAWD Bl.5 a 6**
   Fy Nghymru i
   1. £5 2. £3 3. £2

8. **ADRODD Bl.5 a 6**
   Ffrindiau Bach a Mawr
   1. £5 2. £3 3. £2

9. **EITEM CLOCSIO: PÂR, UNIGOLYN NEU GRŴP**
   i gerddoriaeth Rownd yr Horn (Clwb Cymru)
   1. Cwpan her parhaol i'w gadw am flwyddyn
   (Cwpan yn rhoddedig gan Catherine Hughes, Tregaron)

10. **BARDDONIAETH Bl.3 a 4**
    Y Dosbarth
    1. £5 2. £3 3. £2

11. **BARDDONIAETH Bl.5 a 6**
    Enfys
    1. £5 2. £3 3. £2

12. **CELF**
    Sgwâr Tregaron
    1. Cwpan her parhaol i'w gadw am flwyddyn
    (Cwpan her yn rhoddedig gan Lynda Thomas, Pencarreg a chwpan arian i'w gadw, yn rhoddedig gan John Jones, Ffair Rhos)

Gwobrau'r Adran Gyfyngedig yn rhoddedig gan Gangen Tregaron o Sefydliad y Merched

Cyflwynir cwpan her parhaol Cyril Evans i'r UNAWDYDD mwyaf addawol yn yr Adran Gyfyngedig (i'w gadw am flwyddyn) yn ogystal â chwpan i'w gadw - yn rhoddedig gan Cyril Evans, Hafan, Tregaron.

Cyflwynir cwpan her parhaol Mair Lloyd Davies i'r ADRODDWR mwyaf addawol yn yr Adran Gyfyngedig (i'w gadw am flwyddyn) yn ogystal â chwpan i'w gadw - yn rhoddedig gan deulu y diweddar Mair Lloyd Davies, Rhydyfelin, Tregaron, er cof amdani

YR ADRAN AGORED: Dydd Sadwrn, 9fed o Fedi

1. UNAWD CYFNOD SYLFAEN
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Deulu Lleifior, Pentre, Tregaron)

2. ADRODD CYFNOD SYLFAEN
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Ifan a Dilys Jones, Y Border Bach, Tregaron)

3. UNAWD Bl.3 a 4
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Lois Davies, Llwyn-Onn, Tregaron)

4. ADRODD Bl.3 a 4
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Deulu Pantglas, gynt, er cof am eu rhieni Mr a Mrs W D Bulman)

5. UNAWD OFFERYN CERDD oed cynradd
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Deulu Llanio Fawr, Llanio)

6. UNAWD Bl.5 a 6
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan y Pwyllgor)

7. ADRODD Bl.5 a 6
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Osian Arwel Jones, Llain Fflur, Tregaron)

8. CANU EMYN oed cynradd
Hunanddewisiad
1. Tlws 2. £7 3. £5
(Tlws yn rhoddedig gan Marwin Jones-Evans, Llety Ifan, Tregaron)

9. **UNAWD Bl.7 - 9**
Hunanddewisiad
1. Tlws a £10 2. £7 3. £5
(Gwobr gyntaf er cof am Mr Hefin Williams, 5 Brynheulog, Tregaron)

10. **ADRODD Bl.7 - 9**
Hunanddewisiad
1. Tlws a £10 2. £7 3. £5
(Gwobr gyntaf yn rhoddedig gan Deulu Aberdŵr, Tregaron, er cof am Ieuan ac Eirwen Davies)

11. UNAWD Bl.10 - 13
Hunanddewisiad
1. £15 2. £7 3. £5
(Gwobr gyntaf yn rhoddedig gan Deulu Tŷ Gwyn, Pentre, Tregaron er cof am Eleri Jones)

12. ADRODD Bl.10 - 13
Hunanddewisiad
1. £15 2. £7 3. £5
(Gwobr gyntaf yn rhoddedig gan Morfudd Davies, Derlwyn, Tregaron)

13. UNAWD CERDD DANT Bl.7 - 13
Hunanddewisiad
1. £15 2. £7 3. £5

14. UNAWD OFFERYN CERDD Bl.7 - 13
Hunanddewisiad
1. £15 2. £7 3. £5
(Gwobr gyntaf yn rhoddedig gan Mr a Mrs Gareth Jones, Glasdir a Mrs Mair Jones, Bryn-y-Gog)

15. CANU EMYN Bl.7 - 13
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £15 2. £7 3. £5
(Cwpan her parhaol Glenys Slaymaker, i'w gadw am flwyddyn)

16. DARLLEN DARN O'R YSGRYTHUR
Salm 121 (Y Beibl Cymraeg Newydd)
1. £15 2. £10 3. £5

17. DEUAWD dan Bl.13
Hunanddewisiad
1. £15 2. £10 3. £5

18. **CANU EMYN dros 60 oed**
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £30 2. £20 3. £15 4. £10
(Cwpan her parhaol Banc Barclays, Tregaron, i'w gadw am flwyddyn)

19. **MONOLOG**
Hunanddewisiad (dim mwy na 5 munud)
1. Tlws a £30 2. £20 3. £15
(Tlws yn rhoddedig gan Eirwen James, Tŷ Mawr, Llanio)

20. PEDWARAWD AGORED
Hunanddewisiad
1. £40 2. £20 3. £10
(Gwobr gyntaf yn rhoddedig er cof am Mr a Mrs A Jones, Pentalar, Berth)

21. CÂN BOP NEU GÂN ALLAN O SIOE GERDD grŵp neu unigolyn
Hunanddewisiad
1. £30 2. £20 3. £15
(Gwobr yn rhoddedig gan Dewi, Esyllt, Arthur Siôn a Gwen Marged, Tŷ Clyd, Tregaron)

22. HER ADRODDIAD 18 - 30 oed
Hunanddewisiad
1. Tlws a £30 2. £20 3. £15
(Tlws yn rhoddedig er cof am Mr D a Mrs N Jenkins, Gegin Fach, Heol yr Orsaf, Tregaron)

23. HER UNAWD 18 - 30 oed
Hunanddewisiad
1. Tlws a £30 2. £20 3. £15
(Tlws yn rhoddedig gan Meilyr, Ffion, Anni Grug a Gwion Jac, Noddfa, Pentre Isaf)

24. CYSTADLEUAETH CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU 2023-24
CYSTADLEUAETH PERFFORMIO 16 - 25 oed
"MEWN CYMERIAD"
***Gweler amod rhif 14 am fanylion*
1. £30 2. £20 3. £15

25. **CANU EMYN 18 - 60 oed**
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £30 2. £20 3. £15
(Cwpan er cof am Mr John Davies, Llwyngaru, Tregaron, i'w gadw am flwyddyn)

26. SEREMONI CADEIRIO'R BARDD
yng ngofal Eirwen James
Cynhelir y seremoni am 8 o'r gloch

27. CÔR (heb fod dan 12 mewn nifer) - unrhyw leisiau
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £200 2. £100 3. £70
(Cwpan her parhaol British Telecom, i'w gadw am flwyddyn. Rhoddir £30 i bob côr aflwyddiannus)

28. SGEN TI DALENT
Cystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau dros 16 oed
(Noddir gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru)
Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, chwarae offeryn - unrhyw beth fydd yn difyrru'r gynulleidfa. Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os dymunir.
***Gweler amod rhif 15 am fwy o fanylion*
1. Tlws a £50 2. £30 3. £20
(Tlws yn rhoddedig gan Deulu Hafod Wen, Tregaron, i'w gadw am flwyddyn)

29. PARTI CANU (rhwng 6 a 10 aelod) - unrhyw leisiau
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £60 2. £40 3. £30
(Cwpan her parhaol y Teulu John, i'w gadw am flwyddyn.)

30. DEUAWD AGORED
Hunanddewisiad
1. £30 2. £20 3. £15

31. HER UNAWD AGORED
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £100 2. £75 3. £50
(Cwpan her parhaol Teulu Brynteifi, Pont Llanio, i'w gadw am flwyddyn.)

32. **HER ADRODDIAD AGORED**
Hunanddewisiad (heb fod dros 7 munud)
1. Cwpan her parhaol a £100 2. £75 3. £50
(Cwpan her parhaol er cof am Miss Cassie Davies,
yn rhoddedig gan gangen Merched y Wawr Tregaron,
i'w gadw am flwyddyn)

33. **CENWCH I'M YR HEN GANIADAU** *(Gweler amod rhif 4)*
Hunanddewisiad
1. Cwpan her parhaol a £40 2. £20 3. £15
(Cwpan her parhaol Muriel Lloyd, i'w gadw am flwyddyn)

TESTUNAU LLENYDDOL

1. CYSTADLEUAETH Y GADAIR:
Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 80 llinell: "Drysau"
1. Cadair fechan hardd dderw a £100

2. TLWS YR IFANC (dan 21 oed):
Cerdd neu Bortread
Testun: Hunanddewisad
1. Tlws a £25

3. STORI FER: *"Dyddiau Da"*
1. £10

4. YSGRIF: *"Taith"*
1. £10

5. TELYNEG: *"Ffordd"*
1. £10

6. PENNILL TELYN
Wedi ei ysbrydoli gan enw lle
1. £10

7. LLÊN MEICRO:
Tri darn cysylltiedig heb fod yn fwy na 50 gair yr un
Testun: Hunanddewisiad
1. £10

8. CYSTADLEUAETH I RAI SY'N DYSGU CYMRAEG: YSGRIF hyd at 500 gair
"Ysbrydoliaeth"
1. £10

9. CYSTADLEUAETH DISGYBLION Bl.7 - 11:
Cerdd: "Breuddwydion
1. £10

10. BRAWDDEG: FF-E-N-E-S-T-R-I
1. £10

11. LIMRIG:
Dechrau a gorffen limrig yn cynnwys y llinellau canol:

.....
.....
Ond fuodd y gath
Erioed yr un fath
.....
1. £10

DYDDIAD CAU: DYDD MERCHER, 15 AWST 2023

AMODAU

1. Teilyngdod

2. Bydd hawl gan y beirniad i rannu neu atal gwobr.

3. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus.

4. Ni chaniateir i'r buddugol ar yr HER UNAWD agored i gystadlu ar yr HEN GANIADAU.

5. Y cyfansoddiadau oll i'w hanfon at y CADEIRYDD erbyn Mercher **15/8/2023**. Ni dderbynnir dim ar ôl y dyddiad hwn. Yr ymgeiswyr i anfon eu henwau priodol dan sêl at y CADEIRYDD: Cyril Evans, Hafan, Heol Pontrhydfendigaid, Tregaron SY25 6JD. Gellir eu danfon drwy e-bost hefyd os dymunir: eisteddfodgadeirioltregaron@hotmail.com

6. Ni chedwir yr un gystadleuaeth ar agor.

7. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain a all ddigwydd.

8. Rhaid i bob cystadleuydd sydd am gael ei waith yn ôl yn yr adran lenyddol, amgáu amlen gyda'i gyfeiriad a stamp arni.

9. Rhaid i bob ymgais yn yr adran lenyddol fod yn yr iaith Gymraeg.

10. Y corau i ganu yn syth wedi'r cadeirio.

11. Disgwylir i'r bardd buddugol fod yn bresennol yn Seremoni'r Cadeirio.

12. Rhaid dychwelyd y cwpanau her parhaol i'r Ysgrifennydd **o leiaf bythefnos** cyn yr eisteddfod.

13. Danfonwch gopïau cerddoriaeth o flaen llaw at gyfeilydd y prynhawn:
    Lona Phillips, Glyndwr, Abermagwr, Aberystwyth SY23 4AR (01974 261710)
    lona.phillips@btinternet.com
    Y gyfeilyddes am weddill y cystadlaethau yw Sian Davies, davies1812@gmail.com

14. CYSTADLEUAETH CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU
Cystadleuaeth Perfformio 2023-24: "MEWN CYMERIAD"
Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o 2 sgript - Owain Glyndŵr neu Cranogwen. Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn gan ryngweithio gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir. Caniateir gwisgoedd a props.
Sgriptiau, canllawiau ac amodau llawn i'w gweld ar www.steddfota.cymru

15. "SGEN TI DALENT?"
    Beirniad y gystadleuaeth fydd beirniaid y dydd. Rhaid i'r perfformiad fod o natur weddus i gynulleidfa deuluol ac ni chaniateir perfformio darn a berfformir mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod. Dylai pob cystadleuydd roi eu henwau i'r Ysgrifennydd o flaen llaw.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

CADEIRYDD: Cyril Evans, Hafan, Tregaron
TRYSORYDD: Gareth Jones, Awelfan, Tregaron
YSGRIFENNYDD: Eirwen James, Tŷ Mawr, Llanio

DIOLCHIADAU

Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r Eisteddfod

NODDWYR EISTEDDFOD GADEIRIOL TREGARON 2023

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Tref Tregaron

Cyfeillion Eisteddfod Gadeiriol Tregaron

Côr Caron £250

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

DEDDF RHEOLI A DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Er gwybodaeth: Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol mae'n ddyletswydd arnom ni i'ch sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

ARGRAFFWYD GAN: